



Croeso i Gapel y Morfa
Elen Wyn Jones

Gair gan y Gweinidog

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

Do, fe ddaeth ac fe aeth y Nadolig a bellach mae hi bron yn fis Chwefror. Diolch am fendithion yr Ŵyl a'r cyfle am ychydig ddyddiau i ddatod oddi wrth realiti bywyd a phrofi cymdeithas teulu a ffrindiau. Fel pawb arall, rhyw ddiogi am ychydig fu'r hanes yn ein tŷ ni ond bod hwnnw'n ddiogi adeiladol. Cyfle i ymlacio ac atgyfnerthu ond cyfle hefyd i ddal i fyny efo'r darllen. Diolch am y cyfoeth sy'n cael ei gynnig gan y wasg Gymreig ac yn eu plith gyfrol swmpus y bytholwyrdd D. Ben Rees ar Cledwyn Hughes. Mwyniant llwyr oedd ei darllen a rhywun yn cael ei atgoffa am y cewri gwleidyddol hynny nad oeddynt yn swil o fyw a chyhoeddi eu hargyhoeddiadau Cristnogol. Difyr nodi y byddai Cledwyn Hughes yng nghanol ei brysurdeb gwleidyddol yn Nhŷ'r Arglwyddi yn derbyn cyhoeddiadau yng nghapeli bach Sir Fôn er mwyn arwain addoliad.

Cyfrol arall y cefais flas arni oedd cyfrol yn dwyn y teitl *Living with the Enemy* gan yr Iddew Freddie Knoller, cyfrol yn adrodd ei hanes yn dianc o Fienna i Ffrainc yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n gyfrol sy'n canolbwyntio ar allu dyn i oresgyn sefyllfaoedd ac yn cael ei lywio gan yr ewylllys i fyw. Er i Freddie Knoller osgoi y Natsïaid am amser maith, yn y diwedd fe'i daliwyd a'i yrru i wersyll crynhoi Auschwitz. Yr un oedd yr egwyddor yno hefyd ac ar ddiwedd y rhyfel darganfu ei hun yn un o'r miloedd hynny a orfodwyd i gerdded am ddyddiau er mwyn cilio oddi wrth Luoedd y Cynghreiriaid. Tystiodd i greulondeb annynol y Natsïaid a bu'n byw yng nghrafangau yr atgofion hynny trwy gydol ei fywyd. Profiad bythgofiadwy i ni fel teulu oedd ymweld ag Auschwitz fis Tachwedd diwethaf ac felly mae unrhyw hanes am y gwersyll dieflig hwnnw bellach yn

rhywbeth byw i bob un ohonom – ac eto ddim! Un peth yw mynd yno fel ymwelwyr, mewn oes wahanol a mwynhau y rhyddid yna sy'n caniatáu i chi fynd adref, peth arall yw cael eich caethiwo a'ch lladd!

Erbyn i chi dderbyn y rhifyn hwn o Perthyn fe fydd 26ain Ionawr wedi mynd heibio. Yn ôl y calendr dyma'r diwrnod sy'n cael ei neilltuo fel 'Diwrnod Cofio'r Holocost' ac mae'n gyfle i chi a fi gofio am y chwe miliwn o Iddewon a ddiennyddiwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar yr un pryd, mae'n gyfrwng i'n hatgoffa o'r hyn sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r byd ac yn dal i ddigwydd. Mor hawdd yw anghofio, yn arbennig mewn cymuned sy'n caniatáu i ni ryddid a heddwch, ond ar yr un pryd rydym yn sylweddoli bod unigolion a chymunedau yn dal i wynebu erledigaeth ac yn dal i brofi dioddefaint. Y mae unrhyw beth sy'n bygwth sancteiddrwydd bywyd yn groes i'r ddealltwriaeth o Dduw ac yn galw arnoch chi a fi i adnabod o'r newydd ystyr brawdoliaeth gan amlygu'r ddealltwriaeth mewn llais ac mewn gweithredoedd.

Rhaid i ni geisio deall beth yw ystyr cyfiawnder ac o ganlyniad herio yr hyn sy'n groes i ewyllys Duw. Onid dyna a wnaeth yr Iesu? A gwneud hynny mewn cariad a thrugaredd, wrth weld effaith cyfundrefnau gwleidyddol a chrefyddol ar fywydau cyffredin. Neges o ryddid a Duw yng nghanol y rhyddid hwnnw. Felly ninnau!

Cadwch yn gynnes!



Er cof

Mrs Eluned Morris – Ymhlith papurau swyddogol Eluned roedd yna un dudalen arbennig. Tudalen yn llawn dyddiadau ac enwau, tudalen yn ei hysgrifen ei hun, taclus a threfnus. Gwraig swyddfa a desg a chofnodion oedd Eluned a'r dudalen yn adlewyrchu y math o berson oedd hi. Fe'i ganwyd yn 1921 yn Llanfihangel y Creuddyn ond trist nodi iddi golli ei mam a hithau ond yn flwydd oed. Fe'i magwyd gan ewythr a modryb caredig yng Nghnwch Coch a byddai'n sôn llawer am eu cariad a'u gofal. Yn 1926 symudodd i Lanilar lle y derbyniodd ei haddysg gynnar ac oddi yno i Aberystwyth gan fynychu Ysgol y Merched yn Ffordd Alexander ac yna Ysgol Ardwyn. Wedi cwblhau ei haddysg ffurfiol mynychodd gwrs yn Ysgol Fusnes Aberystwyth gan dderbyn hyfforddiant mewn gwaith gweinyddol. Wedi gweithio am gyfnod mewn swyddfa ac yna yn y Llyfrgell Genedlaethol, ymunodd â'r ATS cyn dychwelyd i'r Llyfrgell ar ddiwedd y rhyfel ac aros yno hyd ei hymddeoliad yn 1982. Rhwng 1971 a 1979 bu'n ysgrifenyddes i Dr David Jenkins a rhwng 1980 i 1982 i Dr R. Geraint Gruffydd. Mawr oedd eu clod a chadwodd nifer o'r llythyrau oedd yn tystio i hynny. Yn 1959 priododd â Charles ond yn drist iawn bu farw yn 1970. Colli mam a cholli priod ac o ganlyniad hawdd fyddai chwerwi, ond nid felly Eluned. Yr oedd yn wraig ffydd a bu'n ffyddlon i'r oedfa a'r cyfarfod bore Mawrth yn y Morlan. Wedi byw am gymaint o flynyddoedd yng Nghwrt Sylvan penderfynodd Eluned mai da o beth fyddai mynd i gartref preswyl ac felly bu. Bu'r blynyddoedd yng Nghysgod y Coed yn rhai braf a dedwydd a phrofwyd gofal arbennig gan staff ymroddedig y cartref. Pleser oedd ymweld â hi a byddai'r sgwrs a'r hel atgofion yn felys. Chwith meddwl fod Eluned wedi'n gadael ond diolchwn am ei bywyd ac am gael bod yn ei chwmi.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Nansi ei chwaer a'r teulu cyfan.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogfa Aberystwyth ar
25 Hydref dan arweiniad y Parch Eifion Roberts.

Mrs Joan Jones – Gwraig fonheddig oedd Mrs Joan Jones, a'r boneddigeiddrwydd hwnnw'n cael ei adlewyrchu ar ei haelwyd, yn yr oedfa, mewn sgwrs ac mewn ymholiad. Oherwydd hynny roedd yna ddealltwriaeth o'r cychwyn mai fel Mr Roberts y byddai'n fy nghyfarch ac fel Mrs Jones y byddwn innau'n ei chyfarch hithau. Dechreuodd daith bywyd uwchben siop fferyllydd yn Llambod, yn blentyn i Iorwerth Miles Davies a Jane Davies – ei thad yn fferyllydd a'r alwedigaeth honno'n siapio bywyd teuluol, yn brofiadau ac yn ddylanwadau. Yn dilyn cyfnod o addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Llanbedr Pont Steffan symudodd i Ysgol Dr Williams yn Nolgellau lle y cwblhaodd ei haddysg ffurfiol. Dechreuodd weithio fel nyrs ddeintyddol ac yna fel ysgrifenyddes llaw fer yn Nhrawscoed. Yn 1958, priododd â Gareth a ffrwyth yr uniad yna oedd eu hunig ferch, Miriam. Bu'n wraig a mam gofalus ac ymhen amser yn fam-gu arbennig i Siôn a Ceri. Fel priod a mam yr oedd ei bywyd yn llawn ond tarfwyd ar yr hapusrwydd o ganlyniad i farwolaeth Gareth yn 1987. Gyda'r brofedigaeth yn rhan o'u bywyd, symudodd i fyw ar y Waun, a'r fam a'r ferch yn byw bywyd naturiol ac amrywiol. Ar un llaw, gwraig ei chartref oedd Mrs Jones ond ar y llaw arall yr oedd wrth ei bodd yn mynd ar wyliau. Yn wir byddai'n blodeuo dramor a bu'r teithiau i'r Unol Daleithiau, India, Tsieina a nifer o lefydd eraill, yn fodd i fyw. Byddai wrth ei bodd yn cyfarfod pobl ac yn manteisio ar unrhyw gyfle i ddechrau sgwrs a dod i adnabod rhywun. Bu'n ffyddlon i'r achos yn y Tabernacl, ac wedi'r uno parhaodd gyda'r un ffyddlondeb yng Nghapel y Morfa. Gyda dirywiad ei hiechyd a'i meddwl, symudodd i gartref Pennal View ac yna i Lanybydder gan brofi gofal a chariad staff ymroddedig y ddau gartref. Bu farw'n dawel

yng nghartref Allt y Mynydd yn Llanybydder a braint oedd cael bod gyda hi yn ystod ei munudau olaf. Gwraig fonheddig a gwraig ffydd; diolch am gael ei hadnabod.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Miriam, Phil, Sion, Ceri a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar 4 Tachwedd, dan ofal y Parch Eifion Roberts a'r Parch J. E. Wynne Davies.

Cyfarchion gan Geraint a Iola



Dymuna Geraint a Iola ddiolch i'w holl gyfeillion yng Nghapel y Morfa am eu caredigrwydd.
Braf gweld y ddau yn eu hwyliau cyn y Nadolig.

Croeso i Elen Wyn Jones i'n plith

Ddechrau Ionawr eleni, croesawyd Elen Wyn Jones i'n plith fel Cynorthwy-ydd Bugeiliol gyda gofal arbennig am deuluoedd ac ieuencid.

Rhowch ychydig o'ch cefndir . . .

Cefais fy ngeni yn ardal y Bala ond bellach rwy'n byw yn Aberangell ger Machynlleth. Yn fam i Dylan Meredydd sy'n gweithio gyda Chwmni Tyrbinau Gwynt yn Llanidloes ac yn ddarpar wraig i Simon. Wedi gadael Ysgol y Berwyn bûm



yn gweithio yn y byd iechedd cyn ymuno â staff Ysgol Penweddig fel cydlynnydd 'Hafan' ac 'Encil'. Ystafell dawel yw 'Hafan' ar gyfer disgyblion sydd angen trafod problemau a phryderon personol tra bod 'Encil' yn gweithredu fel ystafell ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth i reoli tymer gyda'r pwyslais ar greu

rhaglen ymddygiad i'r unigolyn. Roeddwn yn gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Bennaeth, y Penaethiaid Blwyddyn a'r teuluoedd.

Beth wnaeth eich denu at y swydd?

Fel llawer un arall bu'r genhedlaeth hŷn yn ddylanwad mawr arnaf ac yn arbennig felly, fy nain. Rwy'n hynod ddiolchgar iddi am ei harweiniad ac mae'n siŵr y byddai'n falch iawn o'm penderfyniad diweddar. Wedi blynyddoedd o fugeilio disgyblion ysgol teimlais yr hoffwn ganolbwyntio ar waith yr Eglwys. Rwy'n dilyn cwrs gyda'r Eglwys Fethodistaidd

ac yn arwain addoliad yng nghapeli Aberdyfi, Tywyn a Dolgellau. Oherwydd fy hoffter o siarad a gwrando ar bobl, y mae'r wedd fugeiliol ar waith yr Eglwys yn apelio a theimlaf fod gennyf lawer i'w gynnig. Y mae'r swydd yn gyfle ac yn sialens!

Eich diddordebau?

Mae gennyf ddiddordeb mewn cerddoriaeth glasurol ac yn arbennig opera ac wrth fy modd yn cerdded. Rwy'n berson camera a llyfr ac ar hyn o bryd yn darllen y gyfrol *Galar a Fi* a olygwyd gan Epyllt Maelor.

Sut hoffech weld gwaith y ddwy eglwys yn datblygu a beth fydd eich cyfraniad chi?

Mae gofynion y ddwy eglwys yn wahanol. Fy rôl yng Nghapel y Morfa fydd cyd-weithio gyda theuluoedd gan ganolbwyntio ar ddisgyblion yr ysgolion uwchradd. Yn Eglwys Dewi Sant byddaf yn bugelio ac yn arwain addoliad. Her yr eglwys heddiw yw cyflwyno'r Efengyl mewn ffyrdd ystyrlon a byw, ac felly fy ngobaith yw creu perthynas â phobl o bob oedran fydd yn arwain at ddyfnhau profiad a chryfhau eu perthynas â'r Eglwys. Y mae gwrando ar bobl ifanc yn eithriadol o bwysig a'm gobaith yw creu cyfleon fydd yn caniatáu i hynny ddigwydd. Rwyf am ailsefydlu'r Clwb Ieuenctid ynghyd â phenwythnos i ffwrdd, a datblygu'r gwaith trwy bwysleisio gwerth bywyd a chyfraniad ein plant a'n pobl ifanc.

Diolch am yr ymddiriedaeth sydd wedi ei dangos ynof. Rwy'n edrych ymlaen at y cyfnod newydd yma yn hanes y ddwy eglwys ac yn gobeithio y caf eich cyfarfod yn fuan.

Bendith,
Elen Wyn Jones

Donald Bricit a Stryd y Domen . . .

Math o ddrama fydryddol a chwaraeid i ddiddanu'r werin yw anterliwt, yn ôl y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. A barnu wrth frwdfrydedd y cymeradwyo ar ddiwedd perfformiad nos Wener, 11 Ionawr, roedd y gynulleidfa wedi mwy na'u diddanu. Yn wir, roedd digon o chwerthin i'w gael drwy'r perfformiad ar ei hyd, a go brin y gallai neb ddweud nad oedden nhw wedi mwynhau'r noson.

Roedd anterliwtiau yn amser Twm o'r Nant yn enwog am eu dychan a'u sylwebaeth grafog ar ffolineb y bobl fawr, a doedd hynny fyth ymhell ym mherfformiad Cwmni Morlan. Adlais oedd Stryd y Domen o stryd nid anenwog yn Llundain, a Donald Bricit yn berthynas i Donald arall o'r tu draw i'r Iwerydd. Ac roedd y cymeriadau i gyd yn rhyw eco o enwogion ein dydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Roedd camp aruthrol ar y sgrifennu – gydag awduron o safon Phil Davies, Sarah Down-Roberts, Hywel Griffiths, Iwan Bryn James, Arwel Rocet Jones, Eurig Salisbury a Iestyn Tyne wrthi, doedd dim syndod – ac roedd y cyfan yn farddonol ac yn ddeifiol-ddoniol yr un pryd. Dyna sy'n gweddu i anterliwt.

Ond rhaid canmol a gwerthfawrogi'r perfformiad hefyd – y cymeriadu gwych, o Terri a Nigel i Leanne a Jeremy, a hwnnw mor fythgofiadwy yn chwilio am ei gath, Sosialaeth; set Gareth Owen; y llefaru llithrig a'r canu gogleisiol. Diolch o galon i bawb am yr actio, y llwyfannu a'r cynhyrchu. Byddai Ann mor falch ohonoch.

A thu hwnt i'r doniolwch, doethineb a gwers sobreiddiol. Yn niwedd yr anterliwt roedd un garfan wedi codi wal o frics i'w hynysu eu hunain tra oedd y lleill yn dangos agwedd groesawgar, agored a goddefgar. Y garfan gyntaf sydd uchaf eu cloch yn ein byd cyfoes, ac yn meithrin agweddau anoddefgar, cas. Daw geiriau emyn gosber T. Gwynn Jones i'r cof:

Na chofia'n mawr wendidau mwyr,
a maint eu holl ffolineb hwy ...

Rhidian

Y Perfformwyr . . .





Cardiau Nadolig . . .

Ers blynyddoedd rydw i wedi bod eisiau dadansoddi ein cardiau Nadolig. Wrth ddadansoddi rwy'n golygu sawl peth; (a) a yw'r cardiau yn gardiau Cymraeg neu Saesneg? (b) ai cardiau masnachol neu elusennol a brynwyd? (c) beth yw iaith y cyfarchion personol i ni ond yn bennaf, ai cardiau Nadoligaidd eu naws ydynt? h.y. a ydynt wedi eu prynu oherwydd y llun ar y blaen? Wedi'r cwbl dyna'r hyn sydd i'w weld pan ddaw'r garden allan o'r amlen, yr hyn a welir gyntaf i greu argraff arna i.

Eleni mae amser wedi caniatáu i mi wneud dadansoddiad 'answyddogol'. Rydw i'n prynu cardiau Nadolig sydd yn ddigamsyniol grefyddol, gyda darlun ar y blaen yn dangos rhyw elfen o stori'r Nadolig a phwrpas y dadansoddiad yw darganfod faint o'r cardiau rydyn ni'n eu derbyn sydd felly, neu a oes robin, dyn eira, coeden Nadolig neu rywbeth cyffelyb yn cymryd lle'r stori. Roeddwn braidd yn siomedig i weld mai 21% yn unig o'r cardiau oedd yn perthyn i gategori oedd fy mhlesio i. A yw hyn yn adlewyrchu'r oes rydyn ni'n byw ynddi?

Mae pedwar deg a mwy o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i ni fyw yn Lloegr, felly roeddwn i'n gobeithio erbyn hyn y byddai'r rhan fwyaf o'r cardiau a brynwyd ar ein cyfer ni yn gardiau uniaith Gymraeg, ond nid felly. Allan o'r holl rai a dderbyniwyd 24% oedd yn gardiau a argraffwyd yn Gymraeg; roedd 53% yn Saesneg, 17% yn ddwyieithog a 5 yn Almaeneg. Serch hynny, yn ddiddorol iawn roedd yn union eu hanner yn cynnwys cyfarchion yn Gymraeg. Felly mae cymaint o'n ffrindiau yn hapus i brynu cardiau Saesneg o siop ond eu neges bersonol i ni yn Gymraeg. Mae hynny yn plesio.

Wedyn aed ati i nodi'r nifer o gardiau oedd yn cefnogi elusen sef 71%. Mae'n amlwg nad yw ein ffrindiau yn malio rhyw lawer am garden Nadoligaidd, yn ôl fy niffiniad i o garden Nadolig, ond maent yn amlwg yn gefnogol iawn i

‘ysbryd’ y Nadolig. Dyluniodd 6 o’n ffrindiau eu cardiau eu hunain!

Nawr cewch benderfynu pa fath o berson ydw i: anorac, nyrd, ydw i’n lloerig, yn ‘sad’, oes clonc arna i neu ydw i’n un sydd â gormod o amser i ladd?

Rhys Huws

Calendr 2018

Hoffem ddiolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi menter Calendr 2018 trwy ei brynu a’i werthu . Mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus, gyda dim ond 5 (ar y cyfri diwethaf) ar ôl. Argraffwyd 300, felly bydd swm sylweddol yn mynd i Apêl Corwynt Cariad. Mawr ddiolch hefyd i Wasg y Lolfa am eu haelioni a’u cymorth parod.



Amelia, Iwan Bryn, Arwel Rocet, Eurig a Sarah.

Cinio Bara a Chaws



Pryd? Dydd Llun, 5 Chwefror
Amser? Rhwng 12.15–1.30 pm
Lle? Festri Capel Bethel

Croeso cynnes i bawb – dewch i gefnogi!

Newyddion

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion at:

- ✦ Cai Gomer a Sandra Jones a fu yn yr ysbyty cyn y Nadolig. Anfonwn ein cofion hefyd at ein holl aelodau sydd yn derbyn gofal ar eu haelwydydd neu mewn cartrefi gofal.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i:

- ✦ Glyndwr Griffiths ar gyflawni 60 mlynedd ers ei ordeinio yn flaenor yn Eglwys Bresbyteriaid Cymru, ac i Huw Owen ar gyflawni 40 mlynedd. Llongyfarchwyd y ddau yn yr Henaduriaeth a gynhaliwyd yn y Morfa ar 16 Chwefror.
- ✦ Mr Wynford Evans a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar 10 Chwefror.

Cydymdeimlwn â:

- ✦ Anne Edwards ac Elgan Philip Davies a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam, sef Mrs Beryl Davies, Brynog, y Buarth.
- ✦ Dafydd a Helen Davies ar farwolaeth mam Dafydd, sef Mrs Ann Davies, Garthmerin, Dan-y-coed a mam-gu i Anna a Maya.
- ✦ Alan Davies a'r teulu, Caerlŷr ar farwolaeth ei fam, sef Mrs Mair Davies, Cartref Blaen-nos, Llanymddyfri – gynt o Erw Goch.
- ✦ Ossie Rees a'i chwiorydd Mary Evans, Megan Jones ac Irene Rees ar farwolaeth eu chwaer Nancy Rees. Cydymdeimlwn hefyd â Marilyn, merch Nancy a'r teulu yng Nghaerdydd.
- ✦ Mair Jones, Penmorfa a'r teulu ar farwolaeth nith i Mair, sef Pauline Jones, Comins Coch.
- ✦ John Evans, Manceinion ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith sef Mona Evans, Casnewydd a modryb i Ian, Andrew a Linda.

- ✦ Marlene a Walford Gealy a'r teulu ar farwolaeth brawd Marlene, sef Mrs Morton Squires, Tymbl Uchaf ac ewythr i Ioan, Catrin a Steffan.

Yr Ysgol Sul:

- ✦ Diolch am y gefnogaeth a'r cymorth a dderbyniwyd wrth baratoi at y Gwasanaeth Nadolig a'r parti yn y festri. Adroddwyd bod casgliad Apêl y Philipinas wedi cyrraedd **£4,700**. Ar ddiwedd y gwasanaeth tynnwyd llun plant a ieuencid yr Ysgol Sul yn arddangos y cyfanswm.
- ✦ Edrychwn ymlaen at ddatlu Gŵyl Ddewi yn ein gwasanaeth fore Sul, 25 Chwefror.

Diolch o galon:

- ✦ Diolch i bawb a wnaeth ymateb mor ardderchog i Apêl arbennig y Banc Bwyd adeg y Nadolig. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr gan y trefnwyr yn Eglwys Sant Anne.

Newyddion Ebeneser



Ar ddechrau blwyddyn newydd dymunwn yn dda i'n Gweinidog, y Parch Eifion Roberts, a'n haelodau yn Ebeneser. Mae'n braf cael cydaddoli bob prynhawn Sul ar ôl toriad byr dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd yn methu ymuno â ni yn y gwasanaethau oherwydd eu hamgylchiadau. Dymunwn yn dda i Brenda Griffiths sydd wedi cael anaf i'w choes.

Croesawn Catrin a David Lewis ynghyd â'u mab bach, Macsén, yn ôl i'r ardal o Gaerdydd. Byddant yn nes at Tad-cu a Mam-gu, sef Tom a Denise Morgan a gweddill y teulu.

Cymdeithas y Morfa

Nos Lun, 6 Tachwedd: Theatr y Gwenyn a'r Werin oedd testun darlith ardderchog Euros Lewis. Cawsom ein tywys yn ôl i wreiddiau'r theatr ac i ddigwyddiadau pan oedd gwrthdaro rhwng y meistri tir a'r werin yn ardaloedd Rhydowen a Dyffryn Arth ac yna i gyfnod cau'r ffatri gaws yn Nyffryn Aeron ac ymateb y cymunedau. Y mae traddodiad drama ein sir wedi datblygu hefyd o ganlyniad i arweinwyr yn ein cymdeithas megis gwenyn yn llafurio ac yn rhannu syniadau. Mae ambell gwch gwenyn megis Theatr Felinfach ac Arad Goch yn parhau i arloesi a meithrin doniau heddiw ac yn ffrwyth llafur a gweledigaeth eu harweinwyr.

Nos Fercher, 22 Tachwedd – Hedd Wyn: Eicon Cenedl:

A hithau'n gan mlynedd ers i Hedd Wyn gael ei ladd mewn brwydr waedlyd yn Fflandrys ac Eisteddfod y Gadair Wag ym Mhenbedw, priodol oedd gwahodd Dr D. Ben Rees i rannu ffrwyth ei ymchwil â ni yn y Gymdeithas. Yn ogystal ag olrhain hanes bywyd Hedd Wyn a'r dylanwadau a fu arno cafwyd cyfeiriadau at feirdd eraill y cyfnod a chysylltiadau unigolion â thref Aberystwyth. Llwyddodd Dr Rees, trwy ei fynegiant byrlymus, i gynnal ein diddordeb tan y diwedd. Diddorol oedd clywed am yr Eisteddfod arbennig a gynhaliwyd ym Mhenbedw fis Medi diwethaf i gofio am Hedd Wyn pan gyflwynwyd cadair arbennig ar gyfer y bardd buddugol gan drigolion Fflandrys heddiw. Edrychwn ymlaen at ein gwibdaith ym Mehefin pan fyddwn yn ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd.

Nos Lun, 4 Rhagfyr – Awn i Fethlehem

Trefnwyd y gwasanaeth Nadolig eleni gan Ellen Llwyd-Evans a Mary Morris. Cawsom ein tywys yn effeithiol at y preseb ym Methlehem trwy gyfrwng carolau, darlleniadau a cherddi. Cafwyd cyflwyniad o garol Ffrengig draddodiadol gan Laurie a Hefina Wright ac eitemau lleisiol ac offerynnol gan Lowri Mair a Steffan Rhys Jones. Y cyfeilydd oedd Mary Morris.

Derbyniwyd casgliad o £107.45 tuag at Hosbis yn y Cartref.

I gloi'r noson roedd cyfle i gymdeithasu o gwmpas y byrddau a mwynhau'r baned a chacennau Nadoligaidd a drefnwyd gan Jean Davies a Beti Roberts gyda chymorth aelodau o'r Gymdeithas.

Cofiwch am y ddau gyfarfod ym mis Chwefror . . .

Nos Lun, 5 Chwefror am 7 o'r gloch

*Pererindod i Israel – Hanes eu taith gan Hywel Lloyd,
Alun Jones a Dafydd Morgan Evans*

**Nos Lun, 26 Chwefror am 7 o'r gloch yng Ngwesty'r
Richmond**

*Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Eifion ac Alwen Roberts
Adloniant gan Rhodri Davies
Pris y tocyn: £12*

CD Nesáu at Iesu




Mrs Lizzie Jones yn derbyn y CD Nesáu at Iesu a'r llyfryn Cymorth gan Iesu oddi wrth Ofalaeth y Garn a Chapel y Morfa ar gyfer Cartref Tregerddan.

Tyrd gyda ni ar ein taith . . .

Grëwr yr enfys,
tyrd drwy ddrysau caeedig
ein hemosiynau,
ein meddyliau a'n dychymyg;
tyrd i gerdded ochr yn ochr â ni,
tyrd atom yn ein gwaith a'n gweddi,
tyrd i'n cyfarfod a'n cynghori,
tyrd i'n galw ni wrth ein henwau,
i'n galw i bererindod.

Iachawr clwyfedig,
allan o'n diffyg undod
gwna ni'n aelodau ynghyd;
allan o boen ein rhaniadau
gad i ni weld dy ogoniant;
galw ni o brysurdeb y presennol
i greu cymuned i'r dyfodol.

Ysbryd undod,
heria ein rhagdybiaethau,
galluoga ni i dyfu mewn cariad a deall,
bydd yn gwmni inni ar ein taith,
fel yr awn allan i'th fyd yn hyderus
fel creadigaeth newydd –
un corff ynot ti,
er mwyn i'r byd gredu.
Amen



Kate McIlhagga allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts



Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yn dilyn recordio yng Nghapel y Morfa yn ddiweddar, bydd y rhaglen gyntaf (o ddwy) yn cael ei darlledu ar S4C nos Sul, 25 Chwefror. Cofiwch wylïo!

SWYDDOGAETHAU CHWEFROR 2018

Blaenor y Mis Gwerfyl Pierce Jones

Porthorion Wyn Hughes, Catrin Griffiths
Huw Owen, Mary Owen

Blodau'r Cysegr – Y Morfa

- 4 Menai Lloyd Williams
- 11 Bethan Bryn
- 18 Elsbeth M. Lewis
- 25 Gwenan a Siân Eleri

Blodau Ebeneser

- 4 Jane Thomas
- 11 Megan Morris
- 18 Llinos Hughes
- 25 Denise Morgan

Cynorthwywyr Llestri Cymun

- 4 (Bore) Mari Turner, Hefina Davies-Wright,
Elsbeth Lewis, Mary Thomas

Cynorthwywyr Ariannol

- 4 Megan Hughes a Catrin Griffiths
- 11 D. Meirion Jones a Beti Roberts
- 18 Rhys Jones a Jean Lloyd Davies
- 25 Hywel Lloyd a Huw Chambers

Tregerddan

- 25 Dan ofal Wyn Hughes a John Roberts

DYDDIADUR CHWEFROR 2018

GWASANAETHAU'R SUL

10.00 a 5.00 yn y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

4 Bugail (Cymun – bore)

11 John Tudno Williams

18 Bugail

25 Walford Gealy

YSGOLION SUL

Plant: bore am 10.00

Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore

CYFARFODYDD WYTHNOSOL – nos Iau am 7.00pm yn y Morlan

Y GYMDEITHAS

Nos Lun, 5 Chwefror am 7.00 o'r gloch – Pererindod i Israel – Hanes eu taith gan Hywel Lloyd, Alun Jones a Dafydd Morgan Evans

CYLCH GWEDDI A CHOFFI – bore Mawrth am 10.30

HWYL HWYR – brynhawn Llun am 3.45 – 5.00 yn Morlan

CINIO BARA A CHAWS

5 Chwefror – Bethel, Stryd y Popty (12.15-1.30)

Golygyddion y mis hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Mawrth PERTHYN at Gwerfyl (gwerfylvpj@googlemail.com) neu Menai (menailwyd@googlemail.com) erbyn **dydd Gwener, 16 CHWEFROR**, yn ddi-ffael os gwelwch yn dda.
